# Deunyddiau Addysgol Ar Lein

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Dyma restr o offer ac adnoddau digidol sydd ar gael i bob disgybl drwy Hwb:

## Hwb®

## Dysgu ac addysgu i Gymru

Y Cwricwlwm ar gyfer Cymru ac offer a deunyddiau addysgol am ddim.




O fewn platfform Hwb gall disgyblion ddefnyddio offer J2E (e.e i greu gwaith celf digidol, gwneud animeiddiadau, trin data a.y.b), Google for Education (G-Suite) ac Office 365 (Word, Powerpoint, Excel a.y.b.) Gellir hefyd lawrlwytho Office 365 i'ch cyfrifiadur / gliniadur adref am ddim. **Cliciwch ar y llun i'r chwith i agor fideo sy'n dangos sut mae gwneud hyn.**

Encyclopædia Britannica

Mae Gwyddoniadur Britannica hefyd ar gael i ddisgyblion o fewn Hwb. Gellir ymchwilio am bynciau penodol neu chwilio am luniau gan ddefnyddio 'Image Quest' neu 'Casgliad y Werin Cymru'. **Cliciwch ar y logo ar y chwith er mwyn gweld fideo sy'n esbonio sut mae defnyddio Gwyddoniadur Britannica.**





Gellir cael mynediad i bapur newydd Cymraeg ar Hwb sydd wedi ei greu ar gyfer disgyblion rhwng 7—11 , sef 'Y Cliciadur' . Mae'n cael ei gyhoeddi bob hanner tymor gan Cynnal a gellir gweld hen rifynnau hefyd. **Cliciwch ar lun 'Y Cliciadur' i weld enghraifft o'r papur newydd.**











Mae gemau er mwyn ymarfer ffeithiau lluosi (TTBlast) ac ymarfer sgiliau sillafu Cymraeg a Saesneg (Spell Blast) ar gael o fewn Hwb. Ceir hefyd gemau er mwyn ymarfer Mathemateg pen ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau. **Cliciwch ar y lluniau ar y chwith i weld fideo sy'n dangos ble gallwch gael mynediad i'r adnoddau yma o fewn Hwb.**

MINECRAFT EDUCATION EDITION


Hefyd erbyn hyn mae'n bosib lawrlwytho 'Minecraft Education Edition' i gyfrifiadur / gliniadur adref am ddim gan ddefnyddio enw defnyddiwr Hwb y disgybl. **Cliciwch ar logo 'Minecraft Education' i weld fideo sy'n dangos sut mae gwneud hyn.**

**Diweddarwyd 17/5/21**


# Sut mae cael mynediad i Hwb® ?





1 Yn gyntaf ewch i borwr gwe a rhowch **'Hwb'** i fewn i'r ardal chwilio.





2 Yna dewiswch y ddolen **'Hwb Digital Learning for Wales'** o'r dewisiadau chwilio.




3 Gallwch cael mynediad at rai adnoddau Hwb heb mewngofnodi . Ond er mwyn cael mynediad i holl offer ac adnoddau Hwb (e.e. Office 365, Just2Easy a.y.b.). Rhaid mewngofnodi gan ddefnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair drwy glicio ar Mewngofnodi (Log in) . **Dylai fod gan bob disgybl enw defnyddiwr a chyfrinair Hwb personol o'r ysgol.**





4 Nodwch eich enw defnyddiwr yn y lle cywir a chliciwch **'Nesaf'** (Next). Dylai'r enw defnyddiwr orffen gyda **@hwbcymru.net.** Yn olaf nodwch eich cyfrinair a gwasgwch **'Sign in'.**





5 Cliciwch ar **Dewislen** i weld holl offer ac adnoddau Hwb sydd ar eich cyfer.

**Diweddarwyd 17/5/21**


# Defnyddio Teams o fewn Office 365




Ar ôl mewngofnodi i Hwb gallwch gael mynediad i Office 365 o brif ddewislen Hwb.





Mae yna nifer o offer digidol ar Office 365 fel Teams , Word , Excel, Powerpoint , Sway a llawer mwy.



Gallwch ychwanegu mwy o apiau i'r bar offer drwy glicio ar yr opsiwn 'All Apps'.


Os yw eich plentyn wedi cael ei roi mewn i ddosbarth digidol ar Teams bydd modd i'r athrawon rannu gweithgareddau, dolenni a negeseuon gyda'r dosbarth.

1 Cliciwch Teams o fewn Office 365.





2 Cliciwch ar Tîm eich dosbarth.

Diweddarwyd 17/5/21




3 Os bydd rhywbeth yn cael ei ddiweddaru bydd hysbysiad bach coch yn ymddangos yn 'Activity'.

4 Gallwch gael mynediad i'r gwaith a chysylltu gyda'r athro / athrawes drwy:




Danfon negeseuon

Cliciwch YMA i weld cyfres o fideos yn dangos sut mae defnyddio gwahanol agweddau o Teams.


**Diweddarwyd 17/5/21**

# Defnyddio Flipgrid

**Adnodd ar-lein yw Flipgrid, sy'n caniatáu i athrawon weld pob disgybl a chlywed ganddynt drwy bostio cwestiynau ar fyrddau trafod amlgyfrwng, a elwir yn grwpiau. Mae dysgwyr yn cwbl-hau'r gwaith a osodwyd ar lafar, mewn ymateb fideo byr.**


## Ble mae cael gafael ar Flipgrid?

Mae sawl gwahanol ffordd o fewngofnodi i Flipgrid. Mae Flipgrid ar gael o fewn Hwb, drwy chwilio am *Flipgrid.com* ar y we , drwy Teams (os yw'r ysgol wedi gosod Flipgrid o fewn Teams) neu gallwch lawrlwytho yr ap i'ch tabled neu ffôn. Yr unig bethau sydd angen yw **cysylltiad gwe , camera a meicroffon.**













Os yw eich plentyn yn cael mynediad i Flipgrid trwy Hwb , Flipgrid.com neu ar dabled neu ffôn symudol yna bydd angen iddyn nhw ddefnyddio'r 'Flip code' i gael mynediad. Y 'Flip code' yw côd unigryw ar gyfer gweld tasgau dosbarth penodol.





Wedi rhoi y 'Flip Code' mewn rhaid clicio ar 'Log in with Microsoft' a nodi eu enw defnyddiwr a chyfrinair Hwb.





**Diweddarwyd 17/5/2021**

Os yw eich plentyn yn cael mynediad i Flipgrid drwy Microsoft Teams yna mae'n dibynnu sut mae yr athro / athrawes wedi gosod y dasg o fewn y Team.


Un ffordd fyddai cael mynediad i'r dasg drwy adran y 'Posts' o fewn Teams. Gallwch glicio ar y ddolen ac yna bydd rhaid dewis 'Log in with Microsoft' a rhoi eu enw defnyddiwr a chyfrinair Hwb i fewn i gael mynediad iddo.




Gall fod yr athro / athrawes wedi gosod y weithgaredd Flipgrid fel 'tab' o fewn sianel yn Microsoft Teams. Wedi i chi glicio ar y 'tab' , bydd rhaid dewis 'Log in with Microsoft' ac yna rhoi eu enw defnyddiwr a chyfrinair Hwb i fewn.

# RECORDIO YMATEB





Ar ôl edrych ar y dasg , gallwch recordio ymateb drwy wasgu ar y botwm mawr coch. Wrth wasgu hwn bydd y sgrîn recordio yn ymddangos.

Diweddarwyd 17/5/2021

# Y Ffenestr Recordio

Amser recordio

Gweld y dasg




'Sticky notes' er mwyn rhoi nodiadau ar y sgrîn recordio

Ychwanegu testun


Cynnwys 'filters' (lliwiau ar y sgrîn)

Ychwanegu sticeri

Ychwanegu ffrâm o gwmpas y ffenest recordio

Newid pa gamera sy'n recordio

Opsiynau fideo/sain




Botwm recordio


Ychwanegu byrddau gwyn neu ddu gallwch ysgrifennu arno (gallwch amrywio faint o fwrdd + camera sy'n ymddangos)

Ychwanegu lluniau (png neu jpeg) o'ch cyfrifiadur i'r ffenest recordio

Ar ôl recordio y fideo bydd angen gwasgu **'Next'** (neu **'Redo'** os oes angen ail wneud y ffilm.




Gallwch hefyd ychwanegu rhagor o gynnwys i'r fideo drwy glicio ar **'Add More'** neu ei olygu drwy dynnu y ddwy ddolen las sydd ar ochr y clip fideo i'r mannau cywir.










Os ydych chi wedi gorffen golygu y fideo yna gwasgwch **'Next'**.

**Diweddarwyd 17/5/2021**





Bydd rhaid ychwanegu llun ar gyfer ymddangos gyda'r dasg. Gallwch dynnu llun ar y camera (Take selfie), ychwanegu ffrâm o'r fideo (Select frame) , uwchlywtho llun o'r cyfrifadur (Upload photo) neu ychwnaegu 'nametag' (sef teitl/ eich enw).




Gallwch hefyd newid yr enw sy'n ymddangos gyda'r fideo (Display name) ac hefyd cynnwys dolen a disgrifiad os ydych yn dymuno. Yna gwasgwch y botwm 

.




Yn olaf gwasgwch ar y botwm 'Done'.


**Diweddarwyd 17/5/2021**

# DEFNYDDIO Adobe Spark

Mae Adobe Spark ar gael trwy Hwb ac mae'n gwneud hi'n hawdd i ddisgyblion droi syniadau i mewn i straeon gwe,

## Ble mae cael gafael ar Adobe Spark?


Gallwch gael mynediad i Adobe Spark trwy yn gyntaf mewngofnodi i Hwb ac yna fe fydd Adobe Spark ar gael ar y ddewislen.




Gallwch hefyd gael mynediad i Adobe drwy fynd i [https://spark.adobe.com/sp](https://spark.adobe.com/sp)

1. Dewiswch 'Mewngofnodwch gyda chyfrif ysgol'.








2. Rhowch eich enw defnyddiwr Hwb a chliciwch 'Continue'.
3. Yna dewiswch 'Company or School account'.




Diweddarwyd 17/5/2021

Gallwch hefyd gael mynediad i Adobe Spark ar iPad neu iPhone:





1. Bydd angen yn gyntaf lawrlwytho Spark Post , Spark Page a Spark Video i'r iPad / iPhone o'r 'App Store' (fel apiau unigol).
2. Gallwch mewngofnodi i'r ap drwy wasgu 'Continue with Google' ac yna nodi eich enw defnyddiwr a chyfrinair Hwb.

Mae 3 adran gwahanol i Adobe Spark sef Spark Post , Spark Page a Spark Video.

# ADOBE SPARK POST

Mae Spark Post yn eich galluogi i droi testun a lluniau yn graffigau sy'n tynnu sylw , fel posteri , clor-iau , tystysgrifau neu gardiau





1. I greu Spark Post cliciwch ar y cylch glas â '+ ' gwyn a wedyn dewiswch 'Flyer' **neu** dewiswch un o'r templedi parod sydd wedi'u rhestru **neu** ddewis 'custom size graphic' a dewiswch maint eich graffigyn.
2. Yn y cynfas rydych chi wedi'i greu, defnyddiwch y botwm '+' i ychwanegu'ch cynnwys (delweddau, testun neu eiconau). Cliciwch ar y ddolen [YMA] i weld fideo sy'n dangos sut mae defnyddio Spark Post.

**Diweddarwyd 17/5/2021**

# Adobe Spark Page

Mae Spark Page yn eich galluogi i gynnwys testun , lluniau , dolenni i wefannau a fideos mewn tudalen gwe. Gallwch greu adroddiadau , dyddiadur dysgu , dyddiadur trip a.y.b. gan ddefnyddio Adobe Spark





1. I greu Spark Page cliciwch ar y cylch glas â '+ ' gwyn a wedyn dewiswch 'Web Page'.
2. Ar y dudalen sydd wedi'i chreu ewch ati i ychwanegu teitl a llun cefndir—hwn fydd y baner ar rhan uchaf eich tudalen gwe.
3. Yna sgroliwch lawr y dudalen ac fe fydd botwm '+' yn ymddangos. Trwy wasgu ar y botwm gallwch ychwanegu lluniau, testun , fideos , gridiau lluniau a botymau sy'n gweithio fel dolenni i wefannau o'ch dewis).
4. Gallwch newid sut mae'r testun a'r dudalen yn gyffredinol yn edrych drwy ddewis 'Theme' a dewis eich hoff thema.

**Diweddarwyd 17/5/2021**

# Adobe Spark Video

Mae Spark Video yn eich galluogi i gyfuno clipiau fideo,, lluniau , eiconau a throslais i greu cyflwyniadau diddorol. Gallwch greu cyflwyniadau yn sôn am eich diddordebau , trosleisio cerdd a.y.b.




1. I greu Spark Video cliciwch ar y cylch glas a '+ ' gwyn a wedyn dewiswch 'Video'.
2. Yn gyntaf rhowch enw i'r fideo a dewiswch 'Start from Scratch'.
3. Yna gallwch ychwanegu sleidiau a chynnwys fideo , sain, testun , lluniau neu eiconau ynddynt. Cliciwch ar y ddolen YMA i weld cyfres o fideos yn dangos sut mae defnyddio Adobe Spark Video.

Diweddarwyd 17/5/2021